

Rhaid i Grist fod yn y canol

“Os nad yw rhywun gyda mi, yn fy erbyn i y mae, ac os nad yw’n casglu gyda mi, gwasgaru y mae.” (adn. 30)

Beth am ddarllen Mathew 12:22–37 ac yna myfyrio

Yr ydym am edrych yn awr ar un elfen bellach yn yr eglwys yn Antiochia. Yr oedd yn eglwys oedd yn ymateb yn briodol a chyda dirnadaeth ysbrydol pan oedd yna wahaniaeth barn yn ei amlygu ei hunan rhwng Barnabas a Paul. Os yw’r Eglwys i adael ei hól yn y dyfodol, mae angen iddi hithau hefyd wybod sut mae ymateb yn briodol pan gyfyd amrywiaeth barn ymhlith eu harweinwyr.

Mae’n amlwg fod Barnabas a Paul yn anghytuno ynglŷn â rhai pethau, ac mi fyddwn yn edrych ar y rhain yn ystod y dyddiau nesaf. Beth bynnag, fe fu i’r eglwys ymgymryd yn gyfrifol wrth geisio delio â’r anawsterau, a delio â hwy gyda gras ac urddas. Mae’n amhosibl credu y ceir sefyllfa lle bydd arweinwyr yn cytuno bob amser, ond fe ddylent gyttuno i anghytuno. Dro ar ôl tro, wrth i ni siarad â phobl am yr Arglwydd Iesu, fe fyddwn yn siŵr o glywed rhai yn dweud: “Ni allwch chi, Gristnogion, fyth gyttuno hefo’ch gilydd.” Yr wyf yn gwybod yn dda am nifer o eglwysi lle mae eu harweinwyr wedi methu â chytuno ac o ganlyniad wedi rhannu’r gynulleidfa oherwydd mai dyma’r unig ffordd i’r gwaith bara ymlaen. Mae’r sylw canlynol yn esiampl berffaith o agwedd arweinwyr o’r fath: “Pan fyddi di yn dysgu delio â phethau yn well, mewn ffordd Gristnogol, tyrd yn ôl i siarad hefo fi, ac yna, efallai, byddaf yn barod i wrando.”

Bu i’r eglwys yn Antiochia arddangos agwedd meddwl iach iawn pan gododd yr anghytundeb rhwng Barnabas a Paul. Nid oeddent yn fodlon i’r anghytundeb achosi rhwyg rhwng y ddau arweinydd cenhadol. Mae’n amlwg na fu i’r eglwys gymryd ochr y naill na’r llall, ac er fy mod yn ymwybodol na ellir dadlau ar sail tawelwch yn yr Ysgrythur, teimlaf, yn yr achos yma, fod y tawelwch yn arwyddocaol. Roedd yr eglwys yn Antiochia yn gwybod sut oedd gweithredu, ond yn gwybod hefyd sut i beidio â gor-ymateb.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Salm 133:1–3; 1 Cor. 1:10–13; Eff. 4:1–6; Phil. 1:27

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Beth yw bendithion undod?
2. Beth yw sylfaen undod?

Gweddi

O Dduw, cynorthwya fi i wybod sut i ymateb pan fo arweinwyr yn anghytuno. Cynorthwya fi i’w cynorthwyo hwy trwy sicrhau nad yw anghytundeb yn troi yn rhwyg. Yn enw Iesu. Amen.